**Ymateb Estyn i'r cynnig i leihau'r capasiti yn Sector Cynradd Cymuned Ddysgu Abertyleri**

## Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

## Crynodeb / casgliad

Mae'r cynnig i leihau capasiti ffisegol Cymuned Ddysgu Abertyleri trwy gau Campws Heol Roseheyworth a symud disgyblion i'r campysau sy'n weddill (Campws y Chwe Chloch a Champws Stryd Tyleri) yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg a'r deilliannau ar gyfer disgyblion yn yr ysgol, o leiaf.

## Disgrifiad a manteision

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu rhesymeg glir ar gyfer y cynnig ac wedi rhoi disgrifiadau manwl o'i nodau a'i amserlenni ar gyfer gweithdrefnau statudol.

Mae'r cynnig yn amlinellu manteision ac anfanteision cysylltiedig yn glir. Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried dewisiadau eraill addas ac yn rhoi rhesymau da ynglŷn â pham mae'r rhain wedi cael eu diystyru. Mae'r rhain yn ymddangos yn rhesymol ac yn deg.

Mae'r cynnig yn nodi ac ystyried risgiau cysylltiedig yn addas. Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried yr effaith y bydd newidiadau'n ei chael ar drefniadau teithio dysgwyr a'r ymrwymiad i barhau i ddarparu cludiant am ddim i blant sy'n mynychu eu hysgol addas agosaf, yn unol â threfniadau'r polisi presennol.

Mae'r ymgynghoriad yn amlinellu sut bydd yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yn lleihau nifer y lleoedd dros ben yn briodol.

Mae'r ymgynghoriad wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith y cynigion ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod lleol, gan ddatgan na fydd y cynnig yn cael

effaith ar argaeledd lleoedd mewn ysgolion Cymraeg. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhesymol.

Mae'r cynnig yn ystyried costau ariannol y cynnig yn addas gan nodi bod Cymuned Ddysgu Abertyleri yn wynebu amcanestyniad o ddiffyg sylweddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Mae'r cynnig yn ystyried bod disgwyl i'r diffyg gynyddu'n sylweddol dros y pum mlynedd nesaf os na chaiff unrhyw gamau eu cymryd, gan roi'r ysgol mewn sefyllfa ariannol anghynaliadwy. Gan ystyried y ffigurau a ddarparwyd, mae'n ymddangos bod hyn yn ystyriaeth resymol.

Mae'r cynnig yn nodi y bydd angen cost amcangyfrifiedig o £100,000 i gynyddu'r adeiladau ar y ddau gampws sy'n weddill. Bydd hyn yn cael ei ariannu o gyllidebau cynhaliaeth presennol.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn rhan o'r cynnig hwn.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn rhan o'r cynnig hwn.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'n ymddangos bod yr awdurdod lleol wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig yn briodol. Mae'r cynnig yn cynnwys sylwadau ynghylch effaith ddisgwyliedig y cynnig ar ddeilliannau disgyblion, lles ac agweddau at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad, ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r awdurdod lleol yn ystyried y byddai lleihau darpariaeth o dri champws i ddau yn galluogi adnoddau i gael eu defnyddio'n fwy effeithlon trwy gydweithio proffesiynol a gweithio rhwng ymarferwyr. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhesymol.

Mae'r cynnig yn cynnwys dolen at adroddiad arolygiad diweddaraf Estyn gyda thestun perthnasol o'r adroddiad. Ar ôl arolygiad, gosodwyd Cymuned Ddysgu Abertyleri gan Estyn yn y categori gweithgarwch dilynol statudol fod angen mesurau arbennig arni. Nid yw'n ymddangos bod hyn wedi cael ei amlygu.

Mae'r cynnig yn ystyried na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhesymol, hefyd.